

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Rhagfyr 8, 2020 am 7:30yh o'r gloch.**

Penderfynwyd defnyddio'r Agenda anfonwyd i'r aelodau ar noson y cyfarfod ac nid yr un gwreiddiol oherwydd materion ychwanegol derbyniwyd.

Presennol: Cyngorwyr: Simon Evans, Carwyn Evans, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Gethin Williams Llinos Williams, Gareth Ellis a John Hughes. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mr George Frangeskides, Cadeirydd Alba Mineral Ressources plc, Cyfarwyddwr Gold Mines of Wales Limited, ac yn berchenog a gweithiwr Clogau-St David's Gold Mine oedd i ymuno â ni yn y cyfarfod.

Roedd am roi'r diweddara'f o weithgareddau y Gwaith Aur a thrafod rhaglen y gwaith a beth fydd yn cael ei wneud dechrau 2021.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglyn ag Eitem 4. Eitem 4, Eitem 5.c. ynglŷn â chynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yn ardal Bontddu.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Tachwedd 10, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Tachwedd 10, 2020

Eitem 4. Eitem 5.c. Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus yn ardal Bontddu.

Penderfynwyd i Mr John Williams gwneud y gwaith dan ofal Mr Gethin Williams sydd â yswrians 'Public Liability'. Bydd y gwaith angen ei wneud yr un fath â'r gwaith oedd yn cael ei wneud gan Mr J.Ll. Williams.

Eitem 10.b. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfarfod trigolion Borthwnog i drafod y mater.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 8, 2020

Eitem 4. Eitem 5.a. Dyfodol Toiledau Bontddu.

Llythyr (8/12/2020) oddi wrth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd. Maent yn rhoi gwybod bydd Swyddog yn casglu'r agoriadau'r Toiledau i'w archwilio. Bydd adroddiad yn cael ei baratoi ar y gwaith bydd angen ei wneud a chyflwyno cais am grant i wneud y gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd i'r Swyddog cael yr agoriadau ac i Cyngor Gwynedd gwneud y gwaith maent yn eu cynnig. Hefyd, i Gethin Williams casglu tystiolaeth o Bontddu i ddangos bod angen Toiledau, ac i'r Clerc casglu gwybodaeth ar y Toiledau.

Eitem 11.a. Llythyr ateb (27/11/2020) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:

i. mae ysgubo dail ar ffordd Taicynhaeaf i Pont Cwm Mynach, Rhiw Ty'n Coed a Ceseilgwm Mawr wedi cael ei wneud.

ii. mae'r angen i lenwi twll sydd yn y ffordd rhwng Pont Garthgell a Camseifion wedi ei anfon i Uned With Priffyrdd.,

ii. mae ysgubo dail ar y ffordd wrth Hendre Forion, Hirgwm wedi cael ei wneud.

Eitem 9.a. Llythyr (8/12/2020) oddi wrth BT. I gwblhau'r contract i fabwysiadu'r ciosg, maent angen gwybod os rydym am osod 'defibrillator' ynddo. Mae hyn i gwblhau'r contract.

Penderfynwyd rhoi gwybod i BT bod y ciosg ddim yn fodern fel mae nhw yn ei ddweud ac nid ydym angen 'defibrillator'. Hefyd, rhoi llun o'r ciosg iddynt.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisio (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION RHAGFYR 8, 2020

b. Llythyr (17/11/2020) oddi wrth Cyllid, Cyngor Gwynedd. Maent angen gwybod ein praesept am 2021 / 2022. Maent angen y wybodaeth erbyn dydd Gwener, Ionawr 29, 2021.

Praesept 2018 /2019 - £7,500.00. Praesept 2019 /2020 - £7,500.00.

Anfonwyd i'r aelodau manylion yn rhoi awgrym y praesept am 2021 / 2022.

Penderfynwyd i'r praesept fod yn £7,500 fel y llynedd.

c. Derbyniwyd (24/11/2020) £242.59 oddi wrth y Clerc i gywiro cyflog y Clerc adeg 2019 – 2020.

ch. Llythyr (27/11/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan Adran 137(4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Gwariant Adran 137. Y terfyn ar gyfer 2021-22. Maent yn rhoi gwybod gall Cynghorau Cymuned wario ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 o dan adran 137(1) ac (3) £8.41, am bob etholwr, at ddibenion elusennol a sefydliadau eraill.

Bydd yr uchafswm yn $£8.41 \times 386 = £3,246.26$.

d. Bill (4/12/2020) am £1,914.00 oddi wrth A.M. Ashton am: dorri a chlirio gwair y fynwent ym Mehefin, Awst a Hydref (£1,200.00), chwistrellu llwybrau a waliau y fynwent ym Mehefin a Hydref (£84.00), clirio gordyfiant gwrychoedd, clirio rhododendron, torri eiddew o'r fynwent a'i waredu (£588.00), glanhau lloches bws Llanelltyd (£42.00).

Penderfynwyd talu'r bil.

dd. Derbyniwyd (9/12/2020) £85.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at ail osod beddfaen ar y diwedd ar Elfyn Price Jones a Mair Jones.

e. Balans yn y banc ar 29 Tachwedd 2020: £12,827.02. (29/11/2019: £12,037.73).

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Llythyr (3/12/2020) gyda manylion Cynllun Llesiant a Chorfforaethol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (12/11/2020) oddi wrth Gadeirydd Alba Mineral Resources plc, Director o Gold Mines of Wales Limited, a pherchennog Glogau St David's Gold Mine.

Mae'n awyddus cyfarfod y Cyngor i roi'r diweddaraf o weithgareddau y Gwaith Aur. Mae hefyd yn awyddus i drafod rhaglen y gwaith a beth fydd yn cael ei wneud dechrau 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau. Penderfynwyd iddo ymuno â ni yn ein cyfarfod.

b. Llythyr (13/11/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn ymwneud â llifogydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Roedd y Cadeirydd yn gweld cynnwys y llythyr yn ddifyr.

c. Galwad ffôn (18/11/2020) oddi wrth Mrs Muriel Williams, Llys Awel, Taicynhaeaf. Mae'n awyddus bod yn aelod o'r Cyngor.

ch. Llythyr (23/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau Agenda Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac Agenda Cyfarfod Cyffredinol Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Star Leaf am 7.00yh 2/12/2020. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 22/5/2019 a chofnodion Cyfarfod Cyffredinol 8/1/2020.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

d. Llythyr (25/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion sut i ymuno â'r Cyfarfod.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

dd. Llythyr (25/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau sydd ar gael ym mis Rhagfyr.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

e. Llythyr (27/11/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion canlyniad Arolwg Aelodau gwnaethpwyd yn ddiweddar gyda'r cynghorau wedi cwblhau holiadur.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

f. Llythyr (8/12/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod Gwaharddiad Defnydd Dros Dro llwybr cyhoeddus rhif 26 a llwybr caniatool yng nghymuned Llanelltyd am y cyfnod o 1/1/2021 am 6 mis. Mae'r gorchymyn ar sail iechyd a diogelwch yn ystod cyfnod clirio coed.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Derbyniodd Cyngorwyr y Sir adroddiad gan Benaethiaid Adrannau'r Cyngor yn rhoi gwybodaeth ar y gwasanaeth maent yn ei roi yng ngyfnod yr pandemig Covid-19. Roedd yr adroddiadau yn ganmoladwy o dan yr amgylchiadau. Roedd y staff yn gweithio o'u cartrefi, ac ni fydd toriadau yn y gwasanaethau er bydd hyn yn rhoi straen ar faterion ariannol. Bydd newidiadau i'r ffordd bydd tai yn cael eu rheoli oherwydd argyfwng yn y farchnad tai - bydd ffafriaeth yn cael ei roi i bobl leol, a bydd perchnogion ail gartrefi yn wynebu costau uwch.

11. Materion Brys

a. Mae angen cadarnhau Rhaglen Asesiad Risg.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd cadarnhau y Rhaglen Asesiad Risg.

b. Mae angen cadarnhau Asedion.

Anfonwyd copi i'r aelodau.

Penderfynwyd cadarnhau yr Asedion.

c. Rhoddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (19/11/2020) mae angen ysgubo'r ffordd ac agor cwteri wedi cau gan ddail ar ffordd Cwm Mynach. Hefyd, rhoi sylw i ddŵr sy'n gorlifo wrth bin halen ffordd i'r Foel, Taicynhaef.

Derbyniwyd ateb oddi wrth Priffyrdd (27/11/2020) yn rhoi gwybod maent wedi trefnu i'r Uned Waith Glanhau Strydoedd fynd i ysgubo'r ffordd am Cwm Mynach a Moel Ispri. Mae gwaith mewn llaw i seidio a ffosio ar ffordd Foel.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd bod canmoliaeth i'r gwaith cafwyd ei wneud. Hefyd rhoi gwybod iddynt mae angen llenwi'r tyllau sydd ar wyneb y ffordd.

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen ysgubo ffordd Cwm Wnin, Llanelltyd.
